# Swydd Wag

---

## Technegydd Teithiol

# Swydd Wag

## Technegydd Teithiol

Mae Ballet Cymru yn chwilio am **Dechnegydd Teithiol** i weithio ar gynyrchiadau *ballet* proffesiynol a fydd yn perfformio mewn lleoliadau ledled y DU yn 2023.

**Y Rôl**

Bydd y **Technegydd Teithiol** yn rhan annatod o'r Tîm Technegol; bydd yn cynorthwyo'r Rheolwr Technegol Teithiol, yn cynnal safonau, ac yn datblygu perfformiad.

Bydd y rôl yn cael ei lleoli yn stiwdio Ballet Cymru yng Nghasnewydd, De Cymru yn ystod y cyfnod cynhyrchu a theithio, a bydd yn golygu teithio i leoliadau ledled y DU ac yn ôl (bydd gan yr ymgeisydd delfrydol drwydded yrru y DU a bydd yn helpu i yrru cerbyd y daith).

Yn ystod yr wythnosau teithio mae Ballet Cymru yn perfformio mewn tua thri lleoliad yr wythnos ar gyfartaledd, gan ddychwelyd i brif safle'r cwmni pan fo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

Rhaid i'r ymgeisydd delfrydol feddu ar sgiliau ymarferol, gwybodaeth a phrofiad o ran ymarfer trydanol yn y theatr, sgiliau ymarferol, gwybodaeth a phrofiad o ran goleuadau a sain, ynghyd â gwybodaeth ymarferol am arferion Iechyd a Diogelwch cyfredol sy'n berthnasol i'r rôl.

Hanfodol: Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i weithio yn y DU
Dymunol: trwydded yrru lawn, lân.

**Dyddiadau: Tymor teithio yr haf o 31 Mai tan 29 Mehefin 2023 (4 wythnos)**

**Cynigir gwaith ychwanegol ar gyfer tymor teithio yr hydref o 25 Medi tan 3 Rhagfyr 2023 (10 wythnos)**

| | |
|---|---|
| **Cyflog** | **£600 yr wythnos** |
| **Lwfans Adleoli** | **£75 yr wythnos am hyd y prosiect** |

**Yn ogystal, cynigir lwfansau yn ôl disgresiwn, hawl i wyliau a chynllun pensiwn y cwmni.**

---

**Gwneud cais**
I wneud cais, anfonwch eich CV, ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n nodi eich sgiliau a'ch profiad ar gyfer y rôl, a hynny trwy e-bost at Weinyddwr Ballet Cymru, Jenny Carter **jenny@welshballet.co.uk**

Bydd ceisiadau a gyflwynir yn cael eu hadolygu a bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar ôl iddynt ddod i law.

**Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael gwahoddiad i ddod i gyfweliad, a hynny ar sail barhaus nes bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cael ei benodi i'r swydd.**

Mae Ballet Cymru yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal ac yn Elusen Gofrestredig. Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr y Mwyafrif Byd-eang. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad.

Mae'r Pecyn Swydd hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Swydd- ddisgrifiad

**Teitl y swydd:** **Technegydd Teithiol**

**Yn gyfrifol i**: **Y Cyfarwyddwr Artistig/Y Cyfarwyddwr Artistig Cynorthwyol/ Y Gweinyddwr**

**Prif ddiben y rôl:**

Darparu cyflwyniad o'r safon uchaf yn achos pob cynhyrchiad, digwyddiad a phrosiect dirprwyedig, a hynny mewn modd effeithlon sy'n hybu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynaliadwy, a diwylliant cadarnhaol o ymgysylltu.

**Cwmpas:**

Bydd y Technegydd Teithiol yn rhan annatod o'r Tîm Technegol gan y bydd yn cynorthwyo'r Rheolwr Technegol i gynnal safonau a datblygu perfformiad.

Bydd yn helpu i yrru cerbyd y daith i leoliadau ledled y DU (os yw'n meddu ar drwydded yrru lawn, lân y DU)

Bydd y rôl yn cael ei lleoli yn stiwdio Ballet Cymru yng Nghasnewydd yn ystod y cyfnod cynhyrchu a theithio, a bydd yn cynnwys teithio i leoliadau yn y DU. Yn ystod y cyfnod teithio mae Ballet Cymru yn ymweld â thua thri lleoliad yr wythnos ar gyfartaledd ac yn dychwelyd i brif safle'r cwmni pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau allweddol:**

***Cynllunio***

- Mynd i Gyfarfodydd Technegol ac Ymarferion yn ôl yr angen i gynorthwyo'r gwaith o lunio *Manylebau Technegol* cynyrchiadau Ballet Cymru a'u dosbarthu i theatrau.
- Yn ôl yr angen, cydgysylltu ag aelodau eraill o staff y cwmni i helpu i sefydlu'r gwaith o gynnal gweithgareddau addysg, digwyddiadau ymarfer agored a digwyddiadau eraill y cwmni.
- Cysylltu â choreograffwyr, dylunwyr goleuo a chyd-weithwyr i sicrhau proses gyfathrebu agored ac adeiladol.
- Cysylltu â thimau technegol mewn lleoliadau, ynghyd â chysylltiadau perthnasol eraill, i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen, a chydgytuno ar amserlen ar gyfer Gosod, Perfformio a Dadosod.

***Cynhyrchu a Theithio***

- Helpu i lwytho a dadlwytho'r holl gyfarpar yn ddiogel o'r cerbyd teithio i leoliadau ac ohonynt, gan sicrhau bod y set yn briodol i'r cynhyrchiad a bod cyfrif amdani.
- Rigio (lle nad yw'n bosibl rigio ymlaen llaw) a ffocysu cyfarpar goleuo'r lleoliadau mewn modd diogel.
- Cynorthwyo'r gwaith o osod setiau, rigio a ffocysu, ac o ran cyfarpar Tafluniad Fideo Clyweledol.
- Lle bo angen, cynorthwyo'r gwaith o osod unrhyw system sain.
- Cynigir hyfforddiant ar gyfer y posibilrwydd o weithredu golau a/neu sain.
- Helpu i rannu'r gwaith o yrru'r cerbyd technegol o safle'r cwmni i'r lleoliad (os oes gan yr ymgeisydd drwydded yrru lawn, lân y DU)
- Defnyddio eich sgiliau llwyfan trydanol ymarferol, eich gwybodaeth, a'ch profiad i gynorthwyo'r Tîm i sicrhau bod cynyrchiadau'n cael eu cyflwyno i'r safon uchaf posibl, a bod gweledigaeth greadigol ac artistig y tîm cynhyrchu yn cael ei hatgynhyrchu'n gywir ac yn gyson.

- Cynorthwyo'r gwaith o sicrhau bod yr ardaloedd a ddefnyddir gan yr Adran Dechnegol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, a bod y cyfarpar i gyd yn cael ei storio a'i gynnal a'i gadw'n gywir.
- Cynorthwyo'r gwaith o Osod a Dadosod y cyfarpar teithiol.

**Gweinyddu a Chyllid**

- Gweithio gyda Gweinyddwr y cwmni a'r Tîm Technegol i gynorthwyo'r gwaith o weinyddu taflenni amser, cofnodion gwyliau, a data eraill sy'n ymwneud â staffio.
- Ar y cyd â'r Tîm Technegol, sicrhau bod y cerbyd technegol yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn cael gofal yn ystod y gweithgarwch teithiol.
- Mewn cydweithrediad â Gweinyddwr Ballet Cymru, cadw cofnod o'r holl arian a werir ar danwydd.
- Cynorthwyo'r Gweinyddwr a'r Tîm Technegol i gasglu data perthnasol yn unol â'r Arferion Teithio Cynaliadwy cyfredol a argymhellir.

**Iechyd a Diogelwch**

- Cynorthwyo'r gwaith o hybu diwylliant diogelwch cadarnhaol yn adran y llwyfan, gan gadw at bolisi, rheolau a rheoliadau Iechyd a Diogelwch y Cwmni bob amser.
- Llunio a dilyn *Asesiadau Risg* yn ôl y gofyn.
- Llunio a dosbarthu *Atodiadau Mynediad* yn ôl y gofyn.
- Cynorthwyo'r gwaith o sicrhau lefelau uchel o ran diogelwch y cyhoedd a gofal rhanddeiliaid, a gweithio mewn modd sy'n hybu diwylliant o ddiogelwch.

**Cyffredinol**

- Ymddwyn yn unol â'n gwerthoedd.
- Cynnal cyfrinachedd a dilyn canllawiau diogelu data a chanllawiau cysylltiedig lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau cydymffurfedd â'n polisïau a'n gweithdrefnau bob amser.
- Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i'r swydd.
- Cefnogi mentrau a gynlluniwyd i annog y broses o recriwtio a datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn byw ac yn perfformio ynddynt.

Nid yw'r dyletswyddau yn y swydd-ddisgrifiad hwn yn hollgynhwysol, a gellir eu newid ar unrhyw adeg i adlewyrchu anghenion newidiol y sefydliad. O bryd i'w gilydd, bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn rhan o gwmpas a gradd y swydd.

# Manyleb y Person

## Technegydd Teithiol

**Yr Ymgeisydd Delfrydol**

- Awydd i gaffael profiadau a gwybodaeth newydd ac i ddysgu sgiliau newydd
- Yn canolbwyntio ar gyflwyno pob agwedd dechnegol ar gynyrchiadau mewn modd diogel ac ymarferol
- Sgiliau gyrru da sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch (os oes trwydded yrru lawn, lân y DU ym meddiant yr ymgeisydd)
- Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Yn hunanysgogol ac yn rhagweithiol, ac yn meddu ar y gallu i weithio'n bwyllog dan bwysau a blaenoriaethu gofynion sy'n gwrthdaro
- Agwedd gydymdeimladol at bobl sy'n gweithio dan bwysau mewn amgylchedd artistig
- Y gallu i weithio'n aelod o dîm bach, yn ogystal â'r gallu i weithio'n annibynnol neu i oruchwylio pobl eraill

**Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad**

Hanfodol:

- Gwybodaeth am arferion trydanol ac arferion llwyfan yn y theatr, a phrofiad ohonynt
- Gwybodaeth am systemau goleuo a sain, a phrofiad ohonynt
- Gwybodaeth ymarferol am arferion Iechyd a Diogelwch cyfredol sy'n berthnasol i'r rôl
- Agwedd hyblyg at ofynion y swydd
- Yn gymwys i weithio yn y DU ac yn meddu ar basbort y DU

Dymunol:

- Gwybodaeth sylfaenol am ddesgiau goleuo ETC (cynigir hyfforddiant yn y swydd)
- Yn meddu ar drwydded yrru lawn, lân y DU a sgiliau gyrru da sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch
- Gwybodaeth am weithio mewn modd cynhwysol, sy'n cynnwys creu ardaloedd cynhwysol
- Cymhwyster Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig a/neu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i ennill cymhwyster ar ôl cael hyfforddiant addas
- Gwybodaeth am Arferion Teithio Cynaliadwy a Llyfr Gwyrdd y Theatr
- Y potensial i dyfu i rôl uwch mewn theatr dechnegol
- Y gallu i siarad Cymraeg/ysgrifennu yn Gymraeg

## Gwneud cais

I wneud cais, anfonwch eich CV, ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n nodi eich sgiliau a'ch profiad ar gyfer y rôl, a hynny trwy e-bost at Weinyddwr Ballet Cymru, Jenny Carter **jenny@welshballet.co.uk**

Y Dyddiad Cau ar gyfer Gwneud Cais: Dydd Llun 22 Mai 2023. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn cael eu hadolygu a bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar ôl iddynt ddod i law.

**Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael gwahoddiad i ddod i gyfweliad, a hynny ar sail barhaus nes bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cael ei benodi i'r swydd.**

Mae Ballet Cymru yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal ac yn Elusen Gofrestredig. Rydym yn arbennig o

awyddus i glywed gan ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr y Mwyafrif Byd-eang. Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad.

Mae'r Pecyn Swydd hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

# Gwybodaeth am Ballet Cymru

Mae **BALLET CYMRU** yn gwmni *ballet* proffesiynol arobryn. Mae'n cynhyrchu perfformiadau dawns proffesiynol a gwreiddiol sy'n mynd ar deithiau cenedlaethol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r cwmni yn ymrwymedig i gynhwysiant ac arloesedd ym myd dawns a *ballet* clasurol, gan geisio ffyrdd gwreiddiol a dychmygus o ymgysylltu â phob oed a gallu, a hynny yn ei gartref yng Nghasnewydd, a ledled y wlad.

Ochr yn ochr â'i weithgarwch teithio, mae Ballet Cymru yn cynnig amrywiaeth o raglenni allgymorth hygyrch ar gyfer pobl ifanc a chymunedau amrywiol fel y gallant ymgysylltu â dawns hyd at lefel broffesiynol. Mae'r sefydliad hefyd yn ymwneud â gwaith arloesol mewn ymarfer cynhwysol.

Mae Ballet Cymru yn elusen gofrestredig dan yr enw Gwent Ballet Theatre Limited, ac yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

*Rhagor o wybodaeth ar ein gwefan newydd*

ballet.cymru

Ffôn/Tel: +44 (0)1633 892 927

Ballet Cymru, Uned 1,
Ystad Fasnachu'r Wern, Tŷ-du,
Casnewydd NP10 9FQ Cymru, y DU
Rhif Elusen: 1000855
Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr dan yr enw
Gwent Ballet Theatre Ltd. 02535169

Ballet Cymru, Unit 1
Wern Trading Estate, Rogerstone,
Newport NP10 9FQ Wales UK
Charity No. 1000855
Registered in England and Wales as
Gwent Ballet Theatre Ltd. 02535169

Mae Ballet Cymru yn aelod o/Ballet Cymru is a member of:

Mae Ballet Cymru yn cydnabod cefnogaeth gan/Ballet Cymru is supported by